

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 11ed o Fawrth 2014.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair), Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones, D Martin Williams – Talysarn; Elwyn Jones-Griffith, Menna Williams, Ifan Glyn Jones, Barry Bracegirdle – Penygroes; Eurig Wyn Evans – Nebo; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni. Craig ab Iago – Cyngorydd Sir.

Byddwn yn gwahodd cyrychiolydd o'r Cyngor Iechyd Cymuned i'r cyfarfod nesaf er mwyn trafod pryderon efo'r gwasanaeth iechyd. Byddwn yn ysgrifennu at feddygon lleol ynglyn a'r polisiau iaith, a thynnu sylw fod yr arwydd 'dim parcio' sydd tu allan i un o'r meddygfeydd ym Mhenygroes yn uniaith Saesneg.

Cynllunio.

5 Llwyn y Fuches, Penygroes – estyniad deulawr i dy presennol. Cymeradwyo.

Bryn Deulyn, Nantlle – gosod ffenestri mewnol eilradd. Cymeradwyo.

Caniatawyd insiwleiddio wal allanol 1 Tai Penyrsedd, Nantlle; Caniatawyd insiwleiddio wal allanol Glan Deulyn, Nantlle, 7 Tai Baladeulyn,, 13 Tai Penyrsedd.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Gwasanaethau Bws 1N ac 1M. Trigolion Nantlle ddim yn hapus am y sefyllfa o golli'r gwasanaeth bws. Deallai'r Cyngor fod cyfarfod wedi ei drefnu yn y pentref. Nebo wedi colli gwasanaeth yn rhannol hefyd – bysiau bob yn ail awr yn lle bob awr.

*Chwarel Dorothea – Gorchymyn Gwahardd Ailgychwyn Cloddio a Gweithio Mwynau. Derbyn.

*Ymweliadau Llanllyfni a Phenygroes – baw cwn. Darllenwyd adroddiad y swyddog. Roedd y Cyngor yn ddiolchgar iawn i Peter Simpson o Gyngor Gwynedd am ei ymateb. Roedd yn datgan bod dirwy wedi ei hawlio am adael i gi faeddu ym Mhenygroes, a bod ymgyrch ar dro i geisio lleihau'r broblem. Gofynwyd am leoliadau ble byddai biniau baw cwn yn fuddiol, a byddwn yn gyrru rhestr i Gyngor Gwynedd.

Arall

*Derbyniwyd ebost gan Craig ab Iago parthed bin mynwent Gorphwysfa, gan fod blodau yn cael eu chwythu o'r gorlan flodau, ac yn creu ysbwriel Byddwn yn edrych i mewn i'r posibiladau i wella'r broblem.

Arolwg Tai. Bydd ffurflenni yn cael eu dosbarthu i wanahol ganolfannau yn y pentrefi, ac ar gael i'r cyhoedd eu cwblhau am gyfnod o fis. Byddwn wedyn yn dadansoddi'r canlyniadau.

Materion Pentrefi.

Nebo Cyffordd Nasareth – cerrig man wedi eu golchi oddi ar y tar, ac yn gwneud y gyffordd yn llithrig.

Llanllyfni Coed yn tyfu drosodd o'r Quarry i'r ffordd; Rwbwl wedi ei adael yn y gilfan Lon Ddwr

Penygroes Y palmant/gyli wrth 55 Trem yr Wyddfa yn beryglus, a'r lon yn ofnadwy; Hen Ffordd Clynnog, y gwrych o Pentyrch i lawr i Allt Goch angen ei dorri, dirywiad i'r wal.; Goleuadau Traffic Heol y Dwr, Penygroes byth wedi eu adnewyddu ers y gwyntoedd cryf. Byddwn yn ysgrifennu at Aled Davies i ofyn pam nad yw'r goleuadau wedi eu gosod yn eu holau, a bod pryder am ddiogelwch y plant fydd yn croesi i fynd i'r ysgol; Palmant Trem yr Wyddfa yn anwastad.

Talysarn Gwydrau ar y lon o Talysarn i Tyrpeg ac angen eu glanhau; Byrddau graffiti yn y parc sglefrio wedi dechrau cael eu malu ac yn beryglus. Biniau yn y parc sglefrio wedi eu malu hefyd; Bin wedi diflannu o'i safle ger y parc ceir; Ffordd Nantlle angen ei glirio o blastig ac yn y blaen.